Gŵyl Ban Geltaidd

Eleni cynhaliwyd Yr Ŵyl Ban Geltaidd am y tro cyntaf yn Ccatharlach (Carlow) Iwerddon. Roedd y bwrlwm arferol yn yr Ŵyl yn heintus yn enwedig i'r Cymry oedd yn bresennol.

Uchafbwynt yr Ŵyl i lawer oedd y ffaith i Tegwyn Williams, Llanelwy dderbyn llun o Gastell Carlow gan y Pwyllgor Rhyng-Genedlaethol ar y noson agoriadol â Llywydd Iwerddon, Michael D. Higgins, yn bresennol. Hyn i ddathlu fod Tegwyn wedi hir oes yn cefnogi yr Ŵyl, wedi cyrraedd ei 80fed flwyddyn. Cyflwynwyd tusw o flodau i Marged, ei wraig, hefyd.

Yng nghanol y noson Gymreig ar y nos Wener, Ebrill 13 cafodd Pwyllgor Cymru yr Ŵyl gyfle i ddiolch i Tegwyn drwy ofyn i'r prifardd Robin Williams, Y Bala ddod ymlaen i ddarllen englyn a gyfansoddodd i Tegwyn. Roedd yr englyn wedi ei ysgythru ar lechen gan Gwyn Williams, Hafod Elwy, Dinbych.

I Tegwyn yn wyth deg oed

Er y gost heb ymffrostio - yn oes cur
Tros y Celt bu'n brwydro
A mur 'roes i'w Gymru o
A'i lawenydd di-flino.

Robin